Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | **Swyddog Gwybodaeth, Atgyfeirio a Sgrinio – Tîm IAA** |
| **Lleoliad:** | **Gweithio Ystwyth** |
| **Cyfarwyddiaeth:** | **Gwasanaethau Cymdeithasol** |
| **Statws Contract:** | **Parhaol** |
| **Cyfeirnod Swydd:** | **BG03457** |
| **Oriau:** | **37 awr yr wythnos** |
| **Cyflog:** | **Gradd 5 (£27,334 – £30,296 y flwyddyn)** |

**Crynodeb Swydd**

Cyfrannu at weithrediad effeithiol y Tîm Dyletswydd ac Atgyfeirio ar gyfer y Tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) mewn gwasanaethau plant mewn ymateb i ymholiadau a dderbynnir. Darparu gwasanaeth effeithlon ar gyfer rheoli a phrosesu atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan ddinasyddion ac asiantaethau eraill. Sichau ymateb prydlon a phriodol i gysylltiadau yn unol â gweithdrefnau ac amserlenni statudol.

**Hysbyseb Lawn**

Mae cyfle cyffrous wedi codi o fewn y Tîm IAA ar gyfer unigolyn gyda chymhelliant sydd â sgiliau trefnu cryf a'r gallu i berfformio holl swyddogaethau'r swydd i gydymffurfio gyda deddfwriaeth ac o fewn polisïau, nodau a chanllawiau rhaglen.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithredu'n briodol pan dderbynnir atgyfeiriadau, yn cynnwys adolygu nodiadau achos, deunydd perthnasol arall a chydlynu gydag asiantaethau proffesiynol i gasglu gwybodaeth fel y cynghorir gan y Rheolwr Tîm cyn dod i gysylltiad gyda gweithwyr proffesiynol neu aelodau o'r cyhoedd. Byddwch yn darparu gwybodaeth gywir ar yr opsiynau sydd ar gael mewn ymateb i ymholiadau dechreuol a lle bo angen drefnu ar gyfer gwybodaeth fwy arbenigol i fod ar gael i ymholwyr.

Bydd gennych y gallu i gadw'n bwyllog a gyda'ch ffocws ar dasg tra'n gweithio dan bwysau. Byddwch yn gallu gweithio gydag amrywiaeth o opsiynau cyfryngau, blaenoriaethu llwyth gwaith a gweithio ar eich cymhelliant eich hun. Bydd gennych brofiad o ddelio gyda'r cyhoedd a chydymdeimlo gyda phobl a all fod yn profi straen neu bryder yn eu bywydau.

Mae'r gofynion hanfodol ar gyfer y swydd yn cynnwys 3 x TGAU neu gyfwerth, Gradd A-C yn cynnwys Saesneg, NVQ Lefel 2 neu gyfwerth mewn pwnc perthnasol, profiad o ddelio gyda'r cyhoedd mewn gosodiad gofal cwsmeriaid, a gwybodaeth a dealltwriaeth o'r amrywiaeth o faterion a all effeithio ar deuluoedd, plant a phobl ifanc.
**Cynhelir sgrinio cyn-cyflogaeth yn ystod y broses recriwtio.**

**Bydd angen i ddeiliad y swydd gwblhau cais am Ddatgelu Cofnodion Troseddol.**

**Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch Ffurflen Gais Swyddi Cymraeg**

**Dyddiad Cau:** **18/04/2024**
**Dyddiad Cyfweliadau:** **I'w Gadarnhau**